| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensisynau** |
| **DYDDIAD** | **23 Medi 2008** |
| **TEITL** | **Cyrff Mynediad** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I hysbysu'r Pwyllgor am gyrff mynediad yn terfynnu aelodaeth a chyrff newydd yn ymuno ac i gyfaddasu'r polisi cyrff mynediad presennol ar gyfer mathau newydd o Gyrff Mynediad** |
| **AWDUR** | **Dafydd L. Edwards – Pennaeth Cyllid** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er gwybodaeth ac i gymeradwyo polisi Cyrff Mynediad newydd.** |

**1. Cefndir**

1.1 Yn nhermau eang mae'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn caniatáu dau fath o gyflogwr i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Y rhain yw Corff rhestredig (rhestr o gyflogwyr wedi'u cynnwys mewn atodlen i'r rheoliadau) e.e. Cynghorau Sir a Dosbarth a.y.b., a Chyrff Mynediad a all, yn ddarostyngedig i rai criterion, wneud cais i ymaelodi a'r CPLlL.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2003 cytunodd y Pwyllgor yma criterion ar gyfer corff mynediad a fyddai'n gwneud cais ymaelodi a'r Cynllun (copi fel atodiad 1). Bwriad y criterion oedd gofalu byddai cyrff gyda chysylltiadau digonol a chyflogwyr y cynllun fel y gellir cyfiawnhau gofyniad y rheoliadau o gael 'buddiannau cyffredin' lle y cyfeirir atynt fel Corff Mynediad Cymunedol (CMC).

1.3 Cyflwynwyd y polisi hefyd i ofalu am geisiadau gan CMC allanol a oedd gyda staff ddim wedi eu trosglwyddo iddynt o gyflogwr eisoes y cynllun o dan TUPE.

**Diweddaru'r polisi**

1.4 Yng ngolwg datganiad polisi Fargen Deg y Llywodraeth a draethodd gwarchodaeth ar gyfer pensiynau staff pe byddent yn symud gyda'u gweithlu o'r sector gyhoeddus i'r sector breifat a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gontractwr ddarparu hawl i staff gael mynediad i gynllun pensiwn a oedd yn fras gyffelyb neu i barhau gyda'r CPLlL mae angen adolygu'r polisi presennol.

1.5 Cynllun bras cyffelyb yw un sydd, yn farn actwari cymwysedig, yn darparu fel, ar y cyfan, ni fydd unrhyw weithiwr canfyddadwy yn dioddef colled faterol yn nhermau cronni buddion yn y dyfodol o'i gymharu â phe bae wedi pharhau yn y cynllun sector gyhoeddus.

1.6 Diwygiwyd rheoliadau'r CPLlL i gynnwys darpariaeth lle gall Cronfeydd Pensiwn lunio a gwneud cytundebau mynediad a Chorff Mynediad Trosglwyddedig (CMT). Gan fod criterion o greu CMT yn ddisgresiwn gan y cyflogwr sydd eisoes yn gyflogwr yn y cynllun mae angen math o warchodaeth i'r aelodau staff unigol sydd yn gyflogedig gan y gwasanaeth sydd yn cael ei drosglwyddo i'r cyflogwr newydd.

1.7 Pan mae cyflogwr y cynllun yn cytuno i drefniant gyda chwmni preifat sydd yn cynnwys trosglwyddo staff o dan TUPE, a bod y cwmni preifat hynny, gyda chytundeb y cyflogwr sy'n ildio, a chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dewis cael cytundeb mynediad yn hytrach na darparu cynllun sydd yn fras gyffelyb mae, ar y cyfan yn symud y penderfyniad i ganiatau neu wrthod ymaelodaeth o ddwylo'r awdurdod gweithyddu.

1.8 O ganlyniad i'r uchod dylir Cyngor Gwynedd, fel gweinyddwyr y CPLIL, adolygu ei bolisi presennol fel bod CMT a CMC a grëir o ganlyniad i drosglwyddiad TUPE yn gallu dewis Cytundeb Mynediad cyn belled y byddent yn cwrdd â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 2 DARFYDDIAD CYRFF MYNEDIAD

2.1 Mae Cwmni Gwastraff Môn Arfon wedi darfod fel aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd fel ar 11 Ionawr 2008 pan drosglwyddwyd cyfrifoldebau corfforol a staff mewn yn gyfrannol rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

2.2 Bydd Theatr Gwynedd yn rhoi'r gorau i weithgareddau ar 31 Hydref 2008 ac o ganlyniad yn darfod fel corff mynediad yng Ngronfa Bensiwn Gwynedd. Bydd staff cyfredol ar y dyddiad yma yn unai dod yn bensiynwr neu aelodau gohiriedig yn y Gronfa.

## 3 CAIS AM STATWS CORFF MYNEDIAD CMC

3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu trosglwyddo ei stoc tai i gwmni newydd a elwir yn Cartrefi Conwy i ddechrau ar 1 Hydref 2008.

3.2 Mae Cartrefi Conwy wedi, drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gael mynediad i Gronfa Bensiwn Gwynedd fel CMC er mwyn gwarchod hawliau pensiwn oddeutu 130 o aelodau staff a fydd yn trosglwyddo o dan TUPE ac i ddarparu mynediad agored i staff newydd a benodir

3.3 Er nid yn angenrheidiol o dan y rheoliadau mae Cartrefi Conwy wedi llwyddo cael bond i'w warchod yn erbyn blaengaead cynnar ac i gyfarfod costau ymddeol cynnar pe bae hyn yn digwydd.

3.4 Bydd Cartrefi Conwy yn etifeddu diffyg cyn gwasanaeth y staff fydd yn trosglwyddo o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn talu'r raddfa cyfrannu cyflogwr gofynnol i dalu am hyn.

## 4 CAIS AM STATWS CORFF MYNEDIAD CMT

4.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymgymryd â phroses dendro mewn perthynas â'i wasanaeth arlwyo ysgolion a oedd yn flaenorol yn cael ei ddarparu gan adran Gwasanaethau Masnachol Cyngor Gwynedd.

4.2 Dyfarnwyd y cytundeb i Eden Food Services, is-gwmni i Initial Catering sydd, gyda chymeradwyaeth Cyngor Sir Ynys Môn, wedi gwneud cais i gael statws Corff Mynediad yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn hytrach na darparu cynllun pensiwn bras cymharol eu hunain ar gyfer oddeutu 120 o staff sydd yn cael eu trosglwyddo o dan TUPE.

4.3 Trosglwyddwyd y gwasanaeth ar 1 Medi 2008, ond o ganlyniad i Gronfa Bensiwn Gwynedd gael gwybod am y broses tendro yn hwyr nid oedd yn bosib hel yr wybodaeth actiwaraidd mewn amser ar gyfer y 1af o Fedi. Mae'r data yma yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ar gyfer ei anfon i'r Actiwari. Yn y cyfamser gweithredir graddfa cyflogwr interim ar gyfer gweithwyr Initial Catering sydd wedi ei seilio ar raddfa cronni ddyfodol wasanaeth y Gronfa.

4.4 Cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn i drosglwyddo hawliau pensiwn cronedig ei staff ar sail 100% gronnus. Bydd diffygion yn gysylltiedig ag ôl wasanaeth yn trosglwyddo i Gyngor Sir Ynys Môn.

**ARGYMHELLIAD**

- I nodi terfyniad dau Gorff Mynediad yn y Gronfa
- I fabwysiadu polisi corff mynediad diwygiedig er mwyn cymryd ystyriaeth am CMT a CMC a all drosglwyddo o gyflogwr cyfredol yn y cynllun.
- I dderbyn Cartrefi Conwy a Initial Catering fel Cyrff Mynediad i mewn i Gronfa Bensiwn Gwynedd.

ATODIAD 1

**CYMERADWYO CRITERION MYNEDIAD I GAEL EU GOSOD I GEISIADAU AR GYFER MYNEDIAD I GYNLLUN PENSIWN GWYNEDD**

**(Ble nid yw'r gyfundrefn neu'r corff yn ymuno o dan reol 5(3) (h))**

**1. CYMHWYSTER**
Dylai'r ymgeisiydd a chriterion cymwysterau, yn unol a'r rheoliadau priodol a bydd rhaid ddarparu tystiolaeth o sttws (corff corfforedig, partneriaeth, cymdeithas an-gorfforedig ac yn y blaen)

**2. CYFRIFON WEDI EU HARCHWILIO**
Dylai'r ymgeisydd fel arfer darparu cyfrifon wedi eu harchwilio ar gyfer y tair blwyddyn cyfrifyddu ddiwethaf a ddylid dangos, ble mae'r angen, dystiolaeth o drawsgronni gan lywodraeth leol neu lywodraeth ganolog. Dylid yr ymgeisydd hefyd cadarnhau pa adnoddau sydd ar gael nawr ac yn y dyfodol. Dylid yr ymgeisydd hefyd ddarparu gwybodaeth, sydd yn foddhaol i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyllid y sefyllfa ariannol a hyfywdra'r corff.

**3. CYNLLUN BUSNES**
Dylai'r ymgeisydd ddarparu dogfen strategaeth neu gynllun busnes, a ddylid fod yn foddhaol i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyllid, yn amlinellu gwybodaeth am ddatblygiad a gweithredu a chynlluniau cyllidol y corff, ar gyfer dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi ar ddyfodol y corff, a bod y cyfraniad y cyflogwr wedi ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

**4. TRETH ATALIEDIG UD**
Mae'n bwysig fod y Cyngor yn gwneud yn siŵr bod mynediad unrhyw gorff i'r cynllun ddim yn amharu ar y rhyddid y gronfa rhag treth ataliedig yr UD ar enillion o rai buddsoddion yn yr Unol Daleithiau. Mae'r maes yma yn gymhleth iawn a bydd y Cyngor, mewn achosion perthnasol, yn defnyddio cyngor arbenigol cyn cyrraedd unrhyw benderfyniad i dderbyn y corff.

**5. GWARANTWR**
Cyn bod unrhyw gorff yn cael ei dderbyn i'r gronfa, mae'n rhaid i'r corff ddarparu gwybodaeth am warantwr neu unrhyw warant arall sydd yn dderbyniol i'r Cyngor i ddarparu sicrwydd a diogelwch mewn achos o unrhyw ddiffygdalu gan y corff neu mewn achos ble buasai'r corff yn darfod bodoli yn y dyfodol ac yn gadael y Cyngor gyda chyfrifoldeb am y dyfodol. Bydd y gwarantwr yn blaid i'r cytundeb mynediad cyfreithiol ac yn digolledu'r gronfa mewn achos o fethiant gan y corff.

Bydd y corff sydd yn methu darparu gwarantwr yn gorfod paratoi dogfen wedi ei arwyddo yn cadarnhau y byddant yn talu 2% o gyfraniadau'r gweithiwr yn ychwanegol o'r system gyflogau

**6. GOFYNION GWEINYDDOL**
Dylai'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor eu bod wedi, ac am gynnal bob amser trefniadau gweinyddol priodol i sicrhau fod gofynion taliadau a dogfennaeth y Cyngor, mewn cydberthynas a'r gronfa, yn cael ei gwrdd yn llawn ac ar amser. Mae digwyddiad ble tydi corff ddim yn talu cyfraniadau ar amser neu yn talu'r swm anghywir, bydd y Cyngor yn codi llog, yn unol â rheolau am daliad hwyr.

**7. COST WEINYDDOL**
Bydd y Cyngor yn codi cost safonol o £500 i dalu am gostau cyffredinol sydd yn codi o geisiadau mynediad i'r Gronfa, a fydd yn daladwy gan yr ymgeisydd unwaith eu bod wedi eu cymeradwyo.

**8. CYSYLLTIADAU GYDA ARDAL Y GRONFA**

Dylai unrhyw geisiadau i’r Gronfa fod gyda chysylltiadau canfyddadwy gydag un neu fwy o’r awdurdodau unedol o fewn y gronfa a gyda'i bencadlys, ac yn gwneud ei gweithgareddau o fewn ffin ranbarthol y Gronfa.

**9. NIFER O WEITHWYR**

Ni fydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried am fynediad i’r Gronfa oni bai eu bod gyda 20 neu fwy o weithwyr a fydd yn cyfrannu, ac yn cael buddion o’r Gronfa.

**10. APElIADAU**

Bydd yr holl apeliadau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Pensiynau, a all benderfynu dderbyn corff i’r cynllun ar ddisgresiwn y Pwyllgor.

ATODIAD 2

**CYMERADWYO CRITERION MYNEDIAD I GAEL EU GOSOD I GEISIADAU AR GYFER MYNEDIAD I GYNLLUN PENSIWN GWYNEDD**

**(O dan ddarpariath Rheoliadau 5 – 7 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008)**

**1. CYMHWYSTER**

Dylai'r ymgeisiydd CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau. a chriterion cymwysterau, yn unol a'r rheoliadau priodol a bydd rhaid ddarparu tystiolaeth o sttws (corff corfforedig, partneriaeth, cymdeithas an-gorfforedig ac yn y blaen)

**2. CYFRIFON WEDI EU HARCHWILIO**

Dylai'r ymgeisydd CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau fel arfer darparu cyfrifon wedi eu harchwilio ar gyfer y tair blwyddyn cyfrifyddu ddiwethaf a ddylid dangos, ble mae'r angen, dystiolaeth o drawsgronni gan lywodraeth leol neu lywodraeth ganolog. Dylid yr ymgeisydd hefyd cadarnhau pa adnoddau sydd ar gael nawr ac yn y dyfodol. Dylid yr ymgeisydd hefyd ddarparu gwybodaeth, sydd yn foddhaol i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyllid y sefyllfa ariannol a hyfywdra'r corff.

**3. CYNLLUN BUSNES**

Dylai'r ymgeisydd CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau ddarparu dogfen strategaeth neu gynllun busnes, a ddylid fod yn foddhaol i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyllid, yn amlinellu gwybodaeth am ddatblygiad a gweithredu a chynlluniau cyllidol y corff, ar gyfer dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi ar ddyfodol y corff, a bod y cyfraniad y cyflogwr wedi ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

**4. TRETH ATALIEDIG UD**

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn gwneud yn siŵr bod mynediad unrhyw gorff i'r cynllun ddim yn amharu ar y rhyddid y gronfa rhag treth ataliedig yr UD ar enillion o rai buddsoddion yn yr Unol Daleithiau. Mae'r maes yma yn gymhleth iawn a bydd y Cyngor, mewn achosion perthnasol, yn defnyddio cyngor arbenigol cyn cyrraedd unrhyw benderfyniad i dderbyn y corff.

**5. GWARANTWR**

Cyn bod unrhyw gorff CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau gael ei dderbyn i'r gronfa, mae'n rhaid i'r corff ddarparu gwybodaeth am warantwr neu unrhyw warant arall sydd yn dderbyniol i'r Cyngor i ddarparu sicrwydd a diogelwch mewn achos o unrhyw ddiffygdalu gan y corff neu mewn achos ble buasai'r corff yn darfod bodoli yn y dyfodol ac yn gadael y Cyngor gyda chyfrifoldeb am y dyfodol. Bydd y gwarantwr yn blaid i'r cytundeb mynediad cyfreithiol ac yn digolledu'r gronfa mewn achos o fethiant gan y corff.

Bydd y corff sydd yn methu darparu gwarantwr yn gorfod paratoi dogfen wedi ei arwyddo yn cadarnhau y byddant yn talu 2% o gyfraniadau'r gweithiwr yn ychwanegol o'r system gyflogau

**6. GOFYNION GWEINYDDOL**

Dylai'r ymgeisydd CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau fodloni'r Cyngor eu bod wedi, ac am gynnal bob amser trefniadau gweinyddol priodol i sicrhau fod gofynion taliadau a dogfennaeth y Cyngor, mewn cydberthynas a'r gronfa, yn cael ei gwrdd yn llawn ac ar amser. Mae digwyddiad ble tydi corff ddim yn talu cyfraniadau ar amser neu yn talu'r swm anghywir, bydd y Cyngor yn codi llog, yn unol â rheolau am daliad hwyr.

**7. COST WEINYDDOL**

Bydd y Cyngor yn codi cost safonol o £500 i dalu am gostau cyffredinol sydd yn codi o geisiadau mynediad gan CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau i'r Gronfa, a fydd yn daladwy gan yr ymgeisydd unwaith eu bod wedi eu cymeradwyo.

**8. CYSYLLTIADAU GYDA ARDAL Y GRONFA**

Dylai unrhyw geisiadau i'r Gronfa gan CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau fod gyda chysylltiadau canfyddadwy gydag un neu fwy o'r awdurdodau unedol o fewn y gronfa a gyda'i bencadlys, ac yn gwneud ei gweithgareddau o fewn ffin ranbarthol y Gronfa.

**9. NIFER O WEITHWYR**

Ni fydd ymgeiswyr CMC sydd ddim yn ran o Drosglwyddiad Gweithgareddau yn cael eu hystyried am fynediad i'r Gronfa oni bai eu bod gyda 20 neu fwy o weithwyr a fydd yn cyfrannu, ac yn cael buddion o'r Gronfa.

**10. YMGEISYDD CMC A GREWYD O DROSGLWYDDIAD TUPE O GYFLOGWR SYDD EISOES YN Y GRONFA**

Bydd cais gan CMC a grëwyd o ganlyniad i drosglwyddiad TUPE o Gyflogwr eisoes yn y Gronfa sydd wedi ei gymeradwyo gan y cyflogwr hynny yn derbyn Statws Corff Mynediad heb ei gyfeirio at y Pwyllgor Pensiynau, cyn belled a bod cydymffurfiaeth a phob darpariaeth statudol ac anghenion gweinyddol

**11. YMGEISYDD CMT A GREWYD O DROSGLWYDDIAD TUPE O GYFLOGWR SYDD EISOES YN Y GRONFA**

Bydd cais gan CMT a grëwyd o ganlyniad i drosglwyddiad TUPE o Gyflogwr eisoes yn y Gronfa sydd wedi ei gymeradwyo gan y cyflogwr hynny yn derbyn Statws Corff Mynediad heb ei gyfeirio at y Pwyllgor Pensiynau, cyn belled a bod cydymffurfiaeth a phob darpariaeth statudol ac anghenion gweinyddol

**10. APEIIADAU**

Bydd yr holl apeliadau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Pensiynau, a all benderfynu dderbyn corff i'r cynllun ar ddisgresiwn y Pwyllgor.